Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

## Cyngor Gwynedd

**Blwyddyn archwilio:** 2015-16

**Cyhoeddwyd:** Medi 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 559A2016

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm Deloitte a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Howse – Partner Ymgysylltu, Clare Edge – Rheolwr Ymgysylltu a Rhodri Lewis – Arweinydd Tîm.

# Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw faterion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Statws yr archwiliad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 5 |
| Materion o bwys sy'n deillio o'r archwiliad | 5 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 | 8 |
| Annibyniaeth a gwrthrychedd | 8 |
| Atodiadau | |
| Llythyr Sylwadau Drafft | 9 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd | 12 |
| Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Aelodau'r Pwyllgor Archwilio atynt | 14 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 | 15 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2016 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y swm meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyngor Gwynedd yw £7,667,000. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2015-16, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

6. Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ar 30 Mehefin 2016, ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth, ac ar y dyddiad y gwnaethom gyflwyno'r adroddiad hwn, roedd y gwaith archwilio canlynol heb ei gwblhau:
   a. Cwblhau dyddlyfrau a chwblhau profion mewn nifer o feysydd archwilio nad ydynt yn rhai sylweddol. Hefyd, mae angen i ni gwblhau ein dogfennaeth mewn perthynas â phrofion a gynhaliwyd;
   b. Cwblhau adolygiad sicrwydd ansawdd Partneriaid ac annibynnol; a
   c. Derbyn y llythyr sylwadau.

7. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Swyddog Adran 151 a'r Uwch Reolwr Cyllid.

# Adroddiad cryno

## Adroddiad archwilio arfaethedig

**8.** **Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol** unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

**9.** Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

## Materion o bwys sy'n deillio o'r archwiliad

### Camddatganiadau nas cywirwyd

**10.** Amlinellwn isod y camddatganiadau a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd â'r rheolwyr ond sy'n dal i fod heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os penderfynwch beidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi nodi'r rhesymau dros hynny.

- **Camddosbarthu arian parod a dderbyniwyd**

  Nodwyd bod derbyniad buddsoddi wedi cael ei gofnodi yng nghyfriflyfr y dyledwyr, fodd bynnag, cafodd y derbyniad ei dderbyn mewn gwirionedd yn y banc cyn diwedd y flwyddyn. Noder, cofnodwyd yr eitem o fewn y cysoniad banc, fodd bynnag, nid addaswyd postiadau derbyniadau arian na'r cyfrifon i adlewyrchu'r sefyllfa go iawn.

  Credydau Dyledwyr £4,000,000,

  Debydau Arian Parod £4,000,000.

  Cadarnhaodd rheolwyr mai problem amseru oedd hon lle roedd y derbyniad wedi credydu eu cyfrif banc am 16.30 ar 31 Mawrth 2016, a oedd ar ôl y torbwynt ar gyfer gwneud postiadau'r cyfriflyfr refeniw.

### Camddatganiadau a gywirwyd

**11.** Mae un camddatganiad a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw ato gan ei fod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

# Adroddiad cryno

## Risgiau Sylweddol

**12.** Yn ein Cynllun Archwilio Ariannol, gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod ein proses gynllunio. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol.

| Risgiau potensial a asesir | Profi a gwblhawyd yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|
| **Rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau**<br>Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Mae ein profion o gofnodion mewn dyddlyfrau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y tîm archwilio yn cwblhau'r gweithdrefnau canlynol:<br>• Profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dull gwell o ddadansoddi data i ddadansoddi holl gynnwys y dyddlyfrau ar gyfer nodweddion o ddiddordeb archwilio;<br>• cynnal profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau dros gofnodion mewn dyddlyfrau i'r cyfriflyfr ariannol;<br>• adolygu priodoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol gan gynnwys rhai â phartïon cysylltiedig.<br>Rhoddwyd dogfennaeth ategol i ni ar gyfer y sampl a ddewiswyd. Fodd bynnag, nid yw wedi ei harchwilio eto. |
| **Cyflawnrwydd a chydnabyddiaeth o incwm grant**<br>Rydym wedi nodi cyflawnrwydd a chydnabyddiaeth o incwm grant fel risg sylweddol gan fod angen arfer barn reoli wrth gydnabod incwm grant, gan gynnwys penderfynu a oes amodau ynghlwm wrth grant ac a gawsant eu bodloni er mwyn caniatáu cydnabyddiaeth.<br>Gwnaethom ystyried bod dau fath o incwm grant yn berthnasol i'r risg hon, sef, grantiau refeniw penodol a grantiau cyfalaf a chyfraniadau. | Cyflawnodd y tîm archwilio y gweithdrefnau canlynol:<br>• profion manwl o incwm grant er mwyn cadarnhau bod y gydnabyddiaeth o incwm yn adlewyrchu'n briodol reolau'r cynllun grant, bod yr hawliad yn unol â'r drafft neu'r hawliad grant terfynol a bod balans y cyfrif rheoli grant wedi ei gysoni'n briodol;<br>• adolygu a dilysu gohebiaeth sydd ynghlwm wrth grantiau penodol a chymharu hyn â thriniaeth gyfrifyddu'r Cyngor; a<br>• phrofi cynllun a gweithrediad rheolaethau ynghylch cydnabod incwm grant.<br>Ni nodwyd unrhyw faterion. |

# Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| **Rhwymedigaeth pensiwn**<br>Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor rwymedigaeth net berthnasol o ran ei rwymedigaethau pensiwn ar y fantolen, ac mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar gyfres o ddyfarniadau actiwaraidd. | Cyflawnodd y tîm archwilio y gweithdrefnau canlynol:<br>• sicrhau prisiad IAS19 ar 31 Mawrth 2016, a phenodi arbenigwyr er mwyn ein helpu i adolygu a phrofi priodoldeb seiliau prisio IAS19, tybiaethau a datgeliadau'r datganiadau ariannol.<br><br>Ni nodwyd unrhyw faterion. |
| **Cyfrifyddu ar gyfer Darpariaethau**<br>Yn 2014-15, darparodd y Cyngor £490,000 i gwmpasu'r golled yn y dyfodol mewn perthynas ag adenillion y Dreth Gyngor a wnaed gan berchnogion tai oedd ag ail eiddo a ddefnyddir yn fasnachol ac sy'n bodloni'r gofynion i fod â hawl i drosglwyddo i dalu Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR). Wrth drosglwyddo'r eiddo hyn i NNDR gall y perchennog tŷ adennill y gwahaniaeth rhwng NNDR a'r Dreth Gyngor a delir ar yr eiddo wedi ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2010.<br><br>Hefyd, darparodd y Cyngor £335,000 yn ei ddatganiad cyfrifon 2014-15 i gyfrannu tuag at gyfran y Cyngor o'r diffyg pensiwn sydd eisoes yn bodoli yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd. Fodd bynnag, roedd y rhwymedigaeth eisoes wedi ei nodi yn y cyfrifon drwy gofnodion Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 - Buddiannau Cyflogeion (IAS19).<br><br>**Gwnaed ailddosbarthiad mewn perthynas â'r darpariaethau hyn wedyn yn 2015-16 i ailddosbarthu'r darpariaethau yn gronfeydd wrth gefn.** | Gwnaeth fy nhîm archwilio y canlynol:<br>• adolygu'r driniaeth gyfrifyddu briodol a gymhwyswyd mewn perthynas ag ailddosbarthu'r ddarpariaeth o ran pensiwn a Threth Gyngor 2014-15; a<br>• phrofi priodoldeb darpariaethau eraill yn natganiad cyfrifon 2015-16 a chyfrifiadau ategol yn unol â Darpariaethau IAS37, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol.<br>Ni nodwyd unrhyw faterion. |

## Materion eraill i'w dwyn i'ch sylw

**13.** Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

- **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Cafwyd gennym fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad

bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.

- **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.**
- **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.**
- **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

## Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

**14.** Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn Atodiad 4. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os bydd unrhyw gamau gweithredu yn weddill, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

## Annibyniaeth a gwrthrychedd

**15.** Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

**16.** Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor Gwynedd sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Drafft

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

29 Medi 2016

## Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2015-16

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a

# Atodiad 1

  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohoni ac sy'n effeithio ar Gyngor Gwynedd ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol. diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

## Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

# Atodiad 1

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Gwynedd ar 29 Medi 2016.

Mae'r adroddiad archwilio yn cyfeirio at gamddatganiad nas cywirwyd ym Mharagraff 10. Cafodd y mater hwn sy'n ymwneud â dyledwyr ac arian parod ei ddwyn i sylw y swyddog perthnasol ar gam hwyr o'r archwiliad, felly ni chaiff ei newid. Nid yw'n cael effaith ar y cyfanswm terfynol, ond ymdrinnir ag ef yn 2016/17 i sicrhau nad yw hyn yn cael ei ailadrodd.

Mae'r adroddiad archwilio yn cyfeirio at gamddatganiad a gywirwyd ym Mharagraff 11. Rydym yn gytûn fod y ddarpariaeth wedi ei rhyddhau, yn hytrach na'i ddefnyddio, ac wedi ei gywiro yn unol â hynny, ond yn nodi na chafodd y newid hwn unrhyw effaith ar y Fantolen.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Dafydd L Edwards

Pennaeth Cyllid

Cyngor Gwynedd

Dyddiad:

Llofnodwyd gan:

Y Cynghorydd Trevor Owen Edwards

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

Cyngor Gwynedd

Dyddiad:

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Gwynedd**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Chronfa Bensiwn Gwynedd

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

# Atodiad 2

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2016 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw, ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

| | |
|---|---|
| Dros ac ar ran | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Huw Vaughan Thomas | 24 Heol y Gadeirlan |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 30 Medi 2016 | CF11 9LJ |

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Aelodau'r Pwyllgor Archwilio atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| | Natur y cywiriad | CIES Debyd (Dr) | CIES Credyd (Cr) | BS Dr | BS Cr |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| 1 | **Camddosbarthu'r Ddarpariaeth Cyflog Cyfartal**<br>Nodwyd bod y datganiadau ariannol yn nodi bod £2,500,000 o'r ddarpariaeth cyflog cyfartal wedi ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nododd ein profion mai dim ond £1,960,000 a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn ac y dylai'r gweddill sef £540,000 fod wedi cael ei gofnodi fel swm nas defnyddiwyd ac a ryddhawyd. | dd/g | dd/g | dd/g | dd/g |

# Atodiad 4

## Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf:

| **Mater yn deillio 1 - Ystadau** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Fel rhan o'n harchwiliad ariannol gwnaethom benodi arbenigwr prisio i helpu'r tîm archwilio i brofi priodoldeb datgeliad IAS 19. Mae'r prisiwr arbenigol wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella sy'n ymwneud yn bennaf â gweithdrefnau a phrosesau ynghylch y prisiadau a gyflawnwyd gan y Rheolwr Ystadau yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarparwyd gan yr adran gyllid. Mae'r argymhellion hyn wedi eu cyfleu i'r rheolwyr. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod y rheolwyr yn gweithio gyda'r Rheolwr Ystadau er mwyn sicrhau y caiff yr argymhellion hyn eu rhoi ar waith yn brydlon. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Gwella ansawdd a chadernid y broses brisio. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Cytuno a gweithredwyd ar rai agweddau eisoes |
| **Dyddiad gweithredu** | Yn barhaus a chyn dyddiad cwblhau 2016/17 |

# Atodiad 4

| Mater yn codi 2 - Darpariaeth drwg-ddyleion | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Cyfanswm y ddarpariaeth drwg-ddyledion yn y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2016 yw £4,106,000 nad yw'n berthnasol.<br>Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor gymysgedd o gategorïau darpariaeth drwg-ddyledion, a'r mwyaf yw darpariaethau'r Mân Ddyledwyr a'r Dreth Gyngor, y naill yn £2,044,000 a'r llall yn £1,300,000. Mae gan y Cyngor ddull gwahanol o gyfrifo'r ddarpariaeth ar gyfer Mân ddyledion o gymharu â phob dyled arall.<br>Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Dyledwyr y Dreth Gyngor yn seiliedig ar raddfa symudol % fesul categori hen ddyledion, nad yw'n unol ag Offerynnau Ariannol IAS 39: Cydnabod a Mesur. Noda paragraffau AG89 ac AG90 o IAS 39 y dylai darpariaeth fod yn seiliedig ar brofiad hanesyddol o golledion ac y dylid adolygu'r fethodoleg a'r tybiaethau ar gyfer amcangyfrif llifau arian parod yn y dyfodol yn gyson.<br><br>Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth mewn perthynas â Mân Ddyledwyr yn seiliedig ar asesiad o ba mor debygol ydyw, ym marn rheolwyr, fod dyledion unigol dros £10,000 yn adenilladwy, ac yna caiff canran darpariaeth wahanol ei chymhwyso at y dyledion hyn yn seiliedig ar yr asesiad. Cynhaliwyd prawf manwl ar y maes hwn o ddarpariaeth ac o sampl o bum eitem nodwyd bod y Cyngor wedi cymhwyso dyfarniadau sy'n ymddangos yn rhesymol ac yn unol â pholisi drwg-ddyledion Mân Ddyledwyr. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod y rheolwyr yn cynnal adolygiad o'u dull o gyfrifo'r ddarpariaeth drwg-ddyledion ac y dylai'r dull hwn fod yn un hyddysg, a allai gynnwys adolygu dyddiadau dyledwyr a thelerau talu, yn enwedig y rhai sy'n llai na blwydd oed, a'u safoni ar draws y Cyngor gymaint â phosibl. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Darpariaeth drwg-ddyledion fwy hyddysg yn unol â gofynion IAS 39. Bydd hyn hefyd yn sicrhau system adrodd ariannol fwy cywir. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Cytuno |
| **Dyddiad gweithredu** | Cyn dyddiad cwblhau 2016/17 |

# Atodiad 4

| Mater sy'n deillio 3 - Dyddlyfrau | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Dewisodd ein profion ar incwm a gwariant nifer o bostiadau dyddlyfrau ac ar gais roedd y cyfrifwyr yn gallu rhoi rhesymeg ynghylch pam y postiwyd y dyddlyfr.  Fodd bynnag, nid oedd postiad y dyddlyfr ei hun yn cynnwys naratif o'r fath. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod pob dyddlyfr sy'n cael ei baratoi a'i bostio yn cael ei ategu gan naratif clir o ran ei reswm a'i resymeg. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Bod rhesymeg lawn yn cael ei darparu sy'n rhoi tryloywder ynghylch maes y tybir ei fod yn un lle y tybir bod y modd y mae rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn peri risg benodol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Byddwn yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth esboniadol gymaint â phosibl o fewn cyfyngiadau'r system cyfriflyfr, gan ein bod yn gyfyngedig i nifer y nodau a ganiateir yn y maes disgrifiad. Bydd rhagor o wybodaeth yn parhau i fod ar gael y tu allan i'r system cyfriflyfr. |
| **Dyddiad gweithredu** | Cyn dyddiad cwblhau 2016/17 |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru